# Swydd-ddisgrifiad

| Cyfarwyddiaeth: | | Lle | |
|---|---|---|---|
| Maes Gwasanaeth ac Adran: | | Priffyrdd a Thrafnidiaeth – Prosiectau Cyfalaf | |
| Rheolwr yr Uned: | | Prif Beirianwyr | |
| Teitl y swydd: | | Technegydd | |
| Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl: | | Rheoleiddiol a Thechnegol RT45A | |
| Rhif y Swydd: | PL.0564-V1 | Gradd | 7 |

| Crynodeb o'r Rôl | |
|---|---|
| **Yn atebol i'r:** | |
| **Diben y Swydd:** | 1. Darparu cymorth technegol i staff uwch i alluogi gwasanaeth dylunio effeithlon ac effeithiol yn unol â'r Ddeddfwriaeth, y safonau dylunio a'r Gofynion Statudol cyfredol.<br>2. Paratoi lluniadau, manylebau a biliau meintiau ar gyfer dylunio ac adeiladu Peirianneg Sifil a phrosiectau cysylltiedig. |
| **Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am y canlynol:** | 1. Cynorthwyo i gynnal / comisiynu arolygon cychwynnol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau.<br>2. Dehongli safonau dylunio, offerynnau technegol a chyfreithiol wrth lunio cynigion ar gyfer aelodau uwch o staff i'w hadolygu ar gyfer paratoi lluniadau dylunio a dogfennau contract<br>3. Cyfrannu at y rhaglen gyflawni ar ystod eang o brosiectau cymhleth trwy baratoi lluniadau, manylebau a Biliau Meintiau.<br>4. Cynorthwyo i reoli prosesau yn unol â Rôl y Prif Ddylunwyr o dan Reoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli 2015.<br>5. Cynorthwyo mewn astudiaethau dichonoldeb a dylunio cynlluniau<br>6. Gwaith mesur ar gyfer paratoi Biliau Maint<br>7. Cysylltu â'r cyhoedd a'r cleientiaid dros y ffôn, gohebiaeth ac yn bersonol yn unol â Gweithdrefn Gofal Cwsmeriaid y Cyngor<br>8. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r System Sicrhau Ansawdd Priffyrdd a Thrafnidiaeth<br>9. Unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn rhesymol ofynnol gan Bennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| **Amgylchiadau Gwaith y Swydd**<br><br>Bydd deiliad y swydd yn: | 1. Ar hyn o bryd mae'r swydd wedi'i lleoli yn Neuadd y Dref. Fodd bynnag, mae trefniadau gweithio hyblyg yn cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad trefniant gwaith ar draws y Cyngor.<br><br>2. Gweithio mewn modd hyblyg ar draws tasgau a lleoliadau ar draws y Cyngor.<br><br>3. Gweithio fel rhan o dîm a gweithredu'n annibynnol h.y. wrth ymgymryd ag ymweliadau safle, fel y bo'n briodol i dasgau'r prosiect.<br><br>4. Gweithredu mewn modd proffesiynol, prydlon a chyflwyno'n dda wrth ymgymryd â dyletswyddau ar ran y Cyngor, a bodloni neu ragori ar y Safon Cwsmeriaid Corfforaethol<br><br>5. Cydymffurfio â Deddfwriaeth CDM 2015, Deddf Cydraddoldeb a rheoliadau perthnasol eraill a chofleidio iechyd a diogelwch ym mhob agwedd ar ddylunio a gweinyddu contractau<br><br>6. Ymgymryd â'r cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974<br><br>7. Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cael eu gweithredu yn unol â Chyfle Cyfartal |

# Manyleb Person

| Cyfarwyddiaeth: | | Lle | |
|---|---|---|---|
| **Maes Gwasanaeth ac Adran:** | | Priffyrdd a Thrafnidiaeth – Prosiectau Cyfalaf | |
| **Rheolwr yr Uned:** | | Prif Beirianwyr | |
| **Teitl y swydd:** | | Technegydd | |
| **Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl:** | | Rheoleiddiol a Thechnegol RT45A | |
| **Rhif y Swydd:** | PL.0564-V1 | **Gradd** | 7 |

| Maen Prawf y Rôl Rhif 1 | Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant |
|---|---|
| **Hanfodol** | 3 blynedd o brofiad peirianneg ar ôl cymhwyster HNC mewn Peirianneg Sifil |
| **Dymunol** | HNC mewn Peirianneg Sifil neu ddisgyblaeth gysylltiedig gyda 3 blynedd o brofiad sylweddol mewn proffesiwn cysylltiedig.<br><br>Aelodaeth o gorff proffesiynol priodol. |
| **Tystiolaeth** | Mae'r holl dystysgrifau i'w darparu yn y cyfweliad i'w dilysu. |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 2** | **Cymhwysedd Sgiliau /Technegol / Proffesiynol** |
| **Hanfodol** | 1. Rhaid i ymgeiswyr fod â chymhwysedd technegol yn y meysydd a bennir yn y disgrifiad swydd.<br><br>2. Dealltwriaeth dda o safonau dylunio perthnasol, arfer gorau a deddfwriaeth berthnasol (TSRGD, Llawlyfr Arwyddion Ffyrdd, DMRB, Deddf Traffig Ffyrdd ac ati)<br><br>3. Lefel uchel o brofiad yn y defnydd o CAD, rhaglenni dylunio arbenigol eraill a defnyddio meddalwedd TG arall gan gynnwys Excel a Word.<br><br>4. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.<br><br>5. Dylai ymgeiswyr fod â'r gallu i gyflwyno gwybodaeth dechnegol i gefnogi uwch staff mewn cyfarfodydd yn fewnol ac yn y rhai sy'n ymwneud â'r cyhoedd. |
| **Dymunol** | |
| **Tystiolaeth** | Ardystiad a/neu gofrestriad/DPP dilys |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 3** | **Profiad** |
| **Hanfodol** | 1. Profiad o ddylunio priffyrdd |

